

# IFAN ROBERTS A'I YSGREPAN

BWRW golwg dros bentwr o hen dorian allan o'r Seren papur wythnosol y Bala a Phenllyn gynt, a ddaeth ag Ifan Roberts, Llandderfel yn ôl i fy nghof. 'Does dim rhyw gymaint a chymaint ers pan gladdwyd ef, deg neu ddeuddeg mlynedd efallai, ac yr oedd o fewn pythefnos neu dair wythnos i gyrraedd ei gant.

Nid y buasai neb yn betio ceiniog y byddai fyth yn cyrraedd y fath oed. Dyn gwachul o gorff ac ansier ei iechyd fu ar hyd y rhan fwyaf o'i oes. Dyna sut y cofiai i ef, ond yn ôl a ddywedai fy nhad, nid dyna sut un ydoedd yn llanc. Mae'n debyg na chafodd ddim mwy o addysg na chyfnod byr mewn ysgol elfennol ac yna, troi i weithio gynted y cyrhaeddodd ei ardegau onid cyn hynny.

Ei waith cyntaf, a'r un olaf fel y digwyddodd pethau, oedd prentis o wechyd yn ffatri wllan Cefnddysarn. Ond nid hir fu ei dymor yno; nid gwaith rhy iachus oedd trin edafedd a deunydd brethyn ynghanol mwrllwch a thwrw y ffatri a chyn bo hir torodd iechyd Ifan yn bur ddrwg; i bob golwg yr oedd yng ngafael y dicau a bu raid iddo orwedd a gorffwys am lawer blwyddyn. Cael a chael oedd hi iddo fyw o gwbl.

Yn y blynyddoedd hyn o nychdod ac o dreulio mwy na hanner ei amser yn orweddiog, dyna pryd y troes Ifan yn ddarllenwr a myfyriwr. 'Rwy'n cofio, pan oeddwn ar Y Cymro yn y pumdegau, inni neilltuo tudalen gyfan yn wythnos i sôn am Eisteddfod y Groglith, Llandderfel ac am Ifan.

Erbyn hynny, ef oedd prif hynafiaethydd Penllyn: am lawer blwyddyn bu'n sgrifennu erthygl wythnosol i'r Seren ar hanes a hynafiaethau'r fro o dan y teitl 'Ysgubau o Ysgrepan y Llofwr', ac ambell waith byddai'n adolygu llyfrau newydd.

Fel gohebydd ac is-olygydd y Cymro, fy ngwaith i oedd ei gael i ddweud tipyn o'i hanes i'r papur. Erbyn hyn, nid wyf yn cofio popeth a ddywedodd ond dechreuodd trwy sôn am ei waeledd hir yn ei wneud yn ddarllenwr.

Ar y dechrau, meddai ef, darllenai lyfrau crefyddol a diwinyddol ond yn y man, teimlai fod y llyfrau hynny a

## D. TECWYN LLOYD yn cofio cymeriad

diwinyddiaeth yn gyffredinol yn tueddu i beri iselder ysbryd iddo ac wrth gwrs, 'doedd hynny'n gwneud dim daioni i'w iechyd.

Penderfynodd roi'r llyfrau diwinyddol o'r neilltuo a throi at borfeydd mwy iachus ym meysydd Hanes, a dyna lle bu wedyn. 'Dwn i ddim beth oedd y llyfrau diwinyddol; - pethau fel Gwaith Gurnal neu Hanes y Merthyrion synnwn i ddim; bu gan fy nhad gopi o Waith Gurnal yn addurno sillf isaf ein cwpwrdd gwyr am lawer blwyddyn.

PRUN bynnag, dechreuodd Ifan sgrifennu erthyglau hanes i amryw bapurau newydd, fel Y Seren a'r Genedl ac mewn amser daeth yn gybyddus â rhai o brit ysgolheigion a llenorion y dydd; pobl fel T.E. Nicholas, Iorwerth C. Peate, Syr Ifor Williams, John Cowper Powys a'u tebyg.

Gohebai'n gyson â'r gwyr hyn a buont hwythau'n hael wrtho yntau trwy gyflwyno copiâu rhad iddo o'u llyfrau.

Y diwrnod y bûm i a Geoff Charles yn ei dŷ gwelsom yno rai o nofelau Powys, barddoniaeth Peate a'i lyfrau ar ddiwylliant gwerin ynghyd â llyfrau mawr Syr Ifor ar ganu Aneurin, Llywarch Hen, ac eraill; pob un wedi eu llofnodi gyda chyfarchion gan yr awduron. Ac ar dro, byddai rhai o'r enwogion hyn yn galw heibio Ifan am sgwrs ac am wybodaeth.

'Roedd gan Syr Ifor gysylltiad teuluol â Llandderfel, ei daid oedd Huw Derfel neu Hugh Hughes (1816-90), mab melinydd Cletwr a nai Dafydd Hughes, Eos Iâl (1794-1862), awdur y garol 'Ar gyfer heddiw'r bore'. Hyn, mae'n siŵr, oedd prif sail ei gyfeillgarwch ag Ifan a'r rheswm dros gyflwyno iddo gopi rhad o bob un o'i weithiau.

Ynglŷn ag un o'r gweithiau hynny, mae stori ddoniol. Dywedais y byddai Ifan yn adolygu ambell lyfr yn Y Seren ond ei brif wendid fel gohebydd i'r Wasg oedd ei fod yn enbyd o groen denau a phigog os câi unrhyw feiriadaeth neu gywiriad cyhoeddus o'i waith.

Byddai'n ateb yn ddiag a ffyrnig i feiriadaeth felly ar unwaith; gwylltio'n gaclwm ar bapur, yn wir. Ac yr oedd rhai doniolwyr parod am dipyn o hwyl yn gwybod hynny.

'Nawr, am fod Canu Llywarch Hen yn sôn mewn ambell enghlyn am Dryweryn a 'Llanfawr' ('Bugail llo, Llanfawr llwybryn') a bod hen chwedl mai gerllaw eglwys Llanfor y claddwyd Llywarch a bod Syr Ifor yn trafod y cyfeiriadau hyn, yr oedd hyn wrth fodd Ifan ac ar ôl cael y llyfr yn anrheg gan Syr Ifor, sgrifennodd ynfaith amdano i'r Seren a hynny mewn cyweirnod awdurdodol un a honnai wybod llawn cymaint am y Canu â Syr Ifor ei hun.

Ond yr oedd un darlennydd a wyddai hefyd yn dda am Ifan, a'r wythnos ddilynol cyhoeddodd Y Seren lythyr ffugenwol yn holi'n sarffaiddd ddiinwed tybed a oedd

Ifan yn iawn ynglŷn â'r peth a'r peth ac a oedd wedi iawnddeall Syr Ifor ynglŷn â rhywbeth arall ac a oedd Ifan, wir, yn gymwys i adolygu gwaith mor enfawr.

Rhyw brocio slei fel yna; neu chwipio abwyd uwchben llyn i weld pa bysgodyn a neidiai ato.

Wel, os do fe, chwedl pobl Sir Gâr, fe neidiodd Ifan fel un wedi ei drywanu yn ei din â nodwydd sachau! Llythyr maith i lambastio'r amheuwyr. Colofn o alw enwau ac ansoddeiriau enllibus am y beirniad: 'llysnafedd maleisus' ebe Ifan oedd ei holl lythyr, 'llysnafedd cefnigennus' gan rhyw 'anwybodyn hunan-dybus' oedd y cwbl; dim ond rhywun oedd yn cael ei fwyta'n fyw gan genfgen a allai sgrifennu'r fath beth, ac ati ac ati: -'roedd gallu Ifan i ddeifio a rhostio aci regi - ond heb dynnu gwg y rhai nad yw yn dda ganddynt regfeydd pen ffair, yn ddiagyfar.

Yn wir, gallai Ifan sgrifennu'n frawychus y prydiau hyn ac arfer y math o iaith a geid gan y cywyddwyr gynt wrth ddilorni'r cyff gwawd!

Wrth reswm, 'doedd yr amheuwyr yn malio nac yn cyffroi un dim. Gwylltio Ifan oedd ei hwyl ef ac ni falai un botwm corn pwy oedd yn iawn ynghylch Llywarch Hen neu beidio.

\* \* \*

ETO, ARTHIO neu beidio, yn ystod ei oes faith fe lwyddodd Ifan i ddiogelu llawer o ddefnyddiau hanes cylch Penllyn. Yr oedd ganddo llyfrgell gampus yn cynnwys gweithiau prin a gwerthfawr fel chwe chyfrol Lloyd am hanes teuluoedd Powys Fadog a *Heraldic Visitations* Lewis Dwnn.

Ei athro, fel y clywais ef yn dweud, oedd Bob Owen Croesor ac mae'n debyg iddo gael cryn dipyn o help a chefnogaeth gan Bob o dro i dro. Bu yntau'n rhoi help i ambell hynafiaethydd lleol arall fel Gruffydd Hughes, Llysgain, Dinmael.

Ac wrth feddwl, onid yw'r cymortha hynafiaethol hwn yn rhywfaint o weddillion y drefn oedd ohoni yng Nghymru cyn bod gennyh na Llyfrgell Genedlaethol, archifau sirol na phrifysgol i hyfforddi a diogelu ymchwilwyr?

Gellid nodi enghreifftiau tebyg mewn ardaloedd eraill o Gymru. Tebyg i hyn, 'ddyliwn i, oedd hi yn nyddiau Ieuan Brydydd Hir ac Lolo Morganwg a llawer casglwr arall llai yn y ddeunawfed ganrif a chyn hynny: pobl fel Bob ac Ifan a Charneddog yn ymroi ati, yn gwbl ddiplomell gan amlaf yn ddi-dâl i wybod a chasglu cymaint ag a fedrent am hanes a llenyddiaeth eu cynefin.

\* \* \*

GELLID dethol cyfrol ddiwyf o ysgrifau Ifan. Mae un o fy mlaen y funud yma a gyhoeddwyd rhwng diwedd 1932 a dechrau 1933 yn Y Genedl. Cofiad a hanes Tomos Jones (1860-1932) Cerrigellwm, Ysbyty Ifan ydyw. Un o brifeirdd gwlad Uwchaledd oedd T.J., awdur

Pitar Pw a'i Berthynasau, casgliad o gerddi a gafodd eirda Saunders Lewis yn Y Faner (Tach: 8. 1932).

Mae'r coffad yn cynnwys dyfyniadau helaeth o lythyr T.J. at Ifan o dro i dro. Wele un enghraifft, llythyr a gafodd ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Bangor ym 1931 pan enillodd Cynan y Goron am ei bryddest 'Y Dyrfaf' a hynny yn groes iawn i farn Moelwyn, un o'r tri beirniad. Ebe Ifan:

*Mewn llythyr arall ataf, dywed ei farn (sef T.J.) am bryddest Emrys James a Cynan i'r 'Dyrfaf'. Ar ôl traethu ei farn ar y pryddestau hyn, tri at bwnc arall, a dywed 'darllenais ysgrif Miall Edwards yn Y LLenor diweddedd ar "Athroniaeth a Chrefydd". Mae'n dda iawn ac yn cynnwys swm aruthrol mwy o feddwl nac sydd yn y ddwy gerdd yr utgenir eu clodydd. Yn ymyl cynnyrch meddwl fel eiddo Miall maent yn bethau bach diniwed iawn.*

Mae'n anodd peidio a dyfynnu rhagor o'r un llythyr. Bob Owen fu'n tywys T.J. o gwmpas Eisteddfod Bangor a'i gyflwyno i rai o enwogion y dydd a gwrddent ar y maes. Fodd bynnag, rhaid oedd troi adre, ac wele T.J. yn disgwyl y bws am Fethesda 'gerllaw rhyw garage'. Ond gyda hynny:

*Toc clywn waeddi o'r tu arall i'r stryd: 'Tom, dyma fo i ti!' Bob Owen wedi troi'n ôl a dod a dyn o ymddygiad diymhongar. 'Dyma fo' meddai. 'Pwy?' ebr ff'au. 'Y Dr. Parry Williams', meddai yntau. Heb os, yr oeddym yn ffyrndiaid cynt, ac yn fwy yn y fan.*

Mi hoffwn fod wedi gweld a chlustfeinio ar y cyfarwyddiad yna! Fe all pawb o'm cenedlaeth i a adnabu Bob Owen ei ddychmygu; y floedd herfeiddiol ar draws y stryd, a'r chwifio breichiau cyffrous.

Do, cefais innau hefyd, yn hogyn ysgol, un diwrnod o brifwyl 1931 yn Mangor. Heddiw, mae'r maes oeddod lle bu, yn blaster o dai ers llawer blwyddyn a Bob, T.J., a'r Doctor wedi hen gilio o bob maes.

\* \* \*

'ROEDD Ifan yn briod a chando blant. Bu ei wraig farw o'i flaen ef, felly hefyd ei ferch. Oherwydd ei oed mawr a'i lesgeidd, treuliodd yntau weddill ei ddyddiau yng nghartref henoedd Cysgod y Gaer, ger Corwen.

Ond beth a ddiwyddodd i'w gasgliad gwyth o lyfrau, cylchgronau a dogfennau, - yn arbennig yr holl lythyr a dderbyniad oddi wrth nifer o Gymry amlycaf eu dydd? Ni wn. Nid oedd ganddo etifedd gyda'i ddiddordebau ef i'w cadw, ffaith drist sydd wedi digwydd fwy nag unwaith yn hanes hynafiaethau ac ysgolheictod.

Heddiw, mae pentref Llandderfel wedi mynd yn gasgliad o dai hafi i Saeson nad oes ganddynt ddim i'w gynnig i unrhyw ddiwylliant nac unrhyw gof na diddordeb yn hanes a hynafiaeth y lle a'r ardal. Hyn yw canlyniad anorfod y mewnlifiad Seisnig lle bynnag y digwydd.

## ANGLESEY BOOKS

(JACK BAINES)

1 Stryd Thomas,

Caergybi

Ynys Môn,

Gwynedd

LL65 1RR

Ffôn: (0407) 50988

Dewch i chwilota yn ein siop

ar ei newydd wedd.

Yr un yw'r cyfeiriad, ond y mae yna fwy fyth o lyfrau yma. Yn ddiarbenigo mewn llyfrau ar fynydd a fforio.